ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Datganiad Ystadegol Cyntaf

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Ystadegau cryno ar gyfer Cymru, fesul rhanbarth: 2020

**20 Mai 2020**
**SFR 43/2020**

Defnyddir data ystadegol yn eang i gefnogi cynllunio rhanbarthol ar draws Cymru. Mae'r gyfres hon o ddatganiadau yn dod â data allweddol am economi, poblogaeth a seilwaith Cymru ynghyd i fodloni anghenion defnyddwyr data ar bedwar rhanbarth economaidd Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru, a De-ddwyrain Cymru).

Nod y datganiad hwn yw rhoi cyd-destun i'r datganiadau rhanbarthol a thynnu sylw at wahaniaethau sy'n bodoli rhwng y pedwar rhanbarth ar gyfer y naw pwnc dan sylw.

Er bod y datganiad hwn wedi'i rannu'n benodau, mae'n bwysig cofio bod yr amrywiol bynciau yn effeithio ar ei gilydd, ac wrth ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer cynllunio dylid rhoi'r data mewn cyd-destun.




Gall gwahaniaethau rhwng rhannau o Gymru yn aml fod yn sgil nodweddion demograffig neu economaidd-gymdeithasol y rhanbarth. Er enghraifft, mae lefelau gweithgarwch economaidd yn cael eu dylanwadu lawer yn fwy gan gymwysterau na'r ardal lle mae person yn byw. Bydd poblogaeth hŷn, llai gweithgar yn economaidd mewn ardal yn dylanwadu ar lefelau allbwn economaidd y pen.

Mae tueddiadau demograffig yn amrywio ar draws Cymru o ran dosbarthiad oedran a newid naturiol, gan arwain at wahaniaethau mewn tueddiadau poblogaeth a thai yn y dyfodol ar draws ac o fewn y rhanbarthau.

Mae cyd-destun daearyddol hefyd yn bwysig, er enghraifft wrth ystyried data ar seilwaith, boed yn gorfforol neu'n ddigidol. Mae'r cydgysylltiad â gweddill y DU yn golygu bod cysylltiad agos rhwng ein perfformiad economaidd a thueddiadau yn y DU a gweddill y byd, ac mewn nifer o ardaloedd ffiniol bydd lefelau cymudo yn effeithio ar rai mesurau allbwn economaidd.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn un o bum allbwn ystadegol sy'n rhoi ystadegau ar gyfer Cymru a phob un o'r pedwar rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru), ar gyfer naw thema allweddol. Gyda'i gilydd, mae'r datganiadau hyn wedi cael eu paratoi i roi gwybodaeth ar gyfer cynllunio rhanbarthol, gan gefnogi Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

## Yn y datganiad hwn


| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 2 |
| Iechyd | 10 |
| Cyflogaeth | 12 |
| Trafnidiaeth | 18 |
| Yr Amgylchedd | 22 |
| Ffyniant | 27 |
| Seilwaith Digidol | 31 |
| Tai | 35 |
| Diwylliant a threftadaeth | 38 |
| Gwybodaeth am Ansawdd | 40 |

Ystadegydd: Geraint Turner ~ 0300 025 5050 ~ desg.ystadegau@llyw.cymru

Ymholiadau oddi wrth y wasg: 0300 025 8099    Ymholiadau cyhoeddus: 0300 025 5050    Twitter: @ystadegaucymru

## Poblogaeth

### Ffigur 1: Y boblogaeth, yn ôl awdurdod  lleol, 2018





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2018, roedd Cymru yn gartref i fwy na 3,138,000 o drigolion. Roedd bron hanner y trigolion hyn wedi'u  crynhoi yn Ne-ddwyrain Cymru, sydd ond yn 14 y cant o arwynebedd tir Cymru.

Yr awdurdod mwyaf poblog yng Nghymru, o bell ffordd, yw Caerdydd, gyda thua 364,000 o drigolion yn 2018, sy'n cyfateb i bron 24 y cant o boblogaeth ei rhanbarth, sef y De-ddwyrain. Roedd y rhanbarth hwn hefyd yn cynnwys yr awdurdod â'r boblogaeth leiaf yng Nghymru, sef Merthyr Tudful, gyda thua 60,000 o bobl.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 2: Dwysedd y boblogaeth (unigolion fesul cilometr sgwâr), yn ôl awdurdod lleol, 2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mesuriadau ardal safonol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2018, roedd gan Gymru ddwysedd poblogaeth o 151.4 o bobl fesul cilometr sgwâr, ar gyfartaledd. Mae hyn yn gynnydd o 3.6 y cant ers 2008. Y De-ddwyrain oedd â'r dwysedd poblogaeth uchaf o blith y pedwar rhanbarth, o bell ffordd, gyda 545.5 o bobl fesul cilometr sgwâr. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i Gaerdydd, sef yr awdurdod mwyaf poblog yng Nghymru gyda 2,585.2 o bobl fesul cilometr sgwâr. Yn y rhanbarth hwn hefyd y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nwysedd y boblogaeth dros y degawd diwethaf, sef 5.1 y cant o gymharu â 2008.

Y Canolbarth oedd y lleiaf poblog o blith y pedwar rhanbarth, gyda dim ond 29.5 o bobl fesul cilometr sgwâr. Y rhanbarth hwn hefyd oedd yn cynnwys yr awdurdod lleol lleiaf poblog yng Nghymru, sef Powys, gyda 25.6 o bobl fesul cilometr sgwâr. Y Canolbarth oedd yr unig ranbarth a welodd ostyngiad yn nwysedd y boblogaeth rhwng 2008 a 2018, sef 1.2 y cant.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

## Ffigur 3: Aneddiadau yng Nghymru fesul dosbarthiad gwledig-trefol, 2011




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, Ystadegau Gwladol


Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata cyfrifiad 2011 (heb ei gyhoeddi) yn dangos bod y niferoedd o bobl sy'n byw ym mhob categori o aneddiad yn Nghymru (yn ôl poblogaeth) yn weddol gyfartal, ond nad yw dosbarthiad y categorïau o aneddiad ar draws Cymru yn gyfartal.

Yn ogystal â phoblogaeth yr aneddiad, mae dosbarthiad gwledig-trefol Ystadegau Gwladol yn ystyried a yw'r aneddiad wedi'i leoli mewn ardal "llai tenau" neu "mwyaf tenau". Dengys dosbarthiad yr aneddiadau yng Nghymru yn y ddau gategori ar y map.

Ar lefel rhanbarthol, y De-ddwyrain oedd â'r nifer a'r gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n byw mewn aneddiadau llai tenau o 25,000 neu fwy o drigolion. Y Canolbarth oedd â'r nifer a'r gyfran uchaf o drigolion yn byw mewn aneddiadau "mwyaf tenau". Mae gwybodaeth gefndirol ar y gwaith hwn ar gael yn yr erthyglau Ffit gorau ar gyfer Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is i ardaloedd adeiledig ac yn y datganiadau Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 4: Dosbarthiad y boblogaeth yng Nghymru, yn ôl oedran a rhyw, 2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae gan Gymru yn gyffredinol boblogaeth sy'n heneiddio rhwng 1998 a 2018, mae cyfran y boblogaeth 65 oed a throsodd wedi cynyddu o 17.4 y cant i 20.8 y cant, tra bod cyfran y boblogaeth 15 oed ac iau wedi gostwng o 20.6 y cant i 17.9 y cant. O blith y pedwar rhanbarth, poblogaeth y De-ddwyrain sydd wedi'i dosbarthu'n fwyaf cyfartal rhwng ei grwpiau oedran. Ledled Cymru, ar gyfer pob blwyddyn oedran rhwng 0 a 30, mae mwy o ddynion na merched. Fodd bynnag, mae mwy o ferched na dynion ar gyfer pob oedran ar ôl 30 oed.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 5: Newid canrannol yn y boblogaeth yn ôl gwlad yn y DU, 1998-2018**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Cynyddodd poblogaeth Cymru 8.2 y cant rhwng 1998 a 2018. Roedd hyn yn is nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ond yn uwch nag yn yr Alban. Fodd bynnag, wrth ystyried y cyfnod 2008 i 2018, y newid canrannol yng Nghymru oedd yr un isaf yn y DU, sef 3.7 y cant.

Yng Nghymru, yn rhanbarth y De-orllewin y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth rhwng 1998 a 2018, sef 9.6 y cant. Yn y Canolbarth y cofnodwyd y cynnydd lleiaf, sef 3.8 y cant. Rhwng y cyfnod 2008 i 2018, cynyddodd poblogaeth Caerdydd yn fwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru (9.5 y cant). Fodd bynnag, gostyngodd poblogaeth Ceredigion 2.6 y cant dros yr un cyfnod. Hwn oedd y gostyngiad mwyaf yn y boblogaeth a welwyd yng Nghymru.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 6: Elfennau o newid yn y boblogaeth yng Nghymru dros amser**





Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data sy'n dangos elfennau o newid yn y boblogaeth ledled Cymru fod mwy o'r newid yn y boblogaeth i'w briodoli i fudo net a newidiadau eraill nag i newid naturiol (genedigaethau a marwolaethau). Ers 1991, mae mudo net a newidiadau eraill wedi bod yn gwbl gadarnhaol, tra bod newid naturiol wedi amrywio rhwng effeithiau cadarnhaol a negyddol. Gan edrych ar awdurdodau lleol, gwelwn mai ym Mro Morgannwg y gwelwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth oherwydd mudo a newidiadau eraill rhwng 2017 a 2018, tra mai yng Nghasnewydd y gwelwyd y newid net mwyaf yn y boblogaeth yn gyffredinol dros yr un cyfnod. Roedd newid yn y boblogaeth o ganlyniad i fudo net a newidiadau eraill yn gadarnhaol ym mhob awdurdod yn ystod y cyfnod hwn, ac eithrio Ceredigion. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r lefel uchaf o newid naturiol yn 2017-18 o bell ffordd, tra gwelwyd newid naturiol negyddol mewn 16 o'r 22 o awdurdodau lleol, sy'n golygu bod nifer y marwolaethau yn fwy na nifer y genedigaethau. Yn Sir Gaerfyrddin y cafwyd y lefel uchaf o newid naturiol negyddol.

Nodyn: Cynhyrchwyd yr adroddiadau hyn cyn cyhoeddi amcangyfrifon dros dro y poblogaeth 2019 ar 6 Mai 2020.

**Ffigur 7: Y gallu i siarad Cymraeg a nodwyd gan unigolion tair oed a throsodd, yn ôl rhanbarth, 2011**





Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn ôl data'r cyfrifiad roedd 562,016 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru yn 2011. Roedd 27 y cant o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y De-ddwyrain, 36 y cant yn y Gogledd, 10 y cant yn y Canolbarth a 26 y cant yn y De-orllewin. Fodd bynnag, roedd dosbarthiad siaradwyr Cymraeg ledled y rhanbarthau yn llai cyfartal o'u hystyried fel cyfran o'r boblogaeth (Ffigur 10).

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am y nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu pobl i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn ei defnyddio (dim ond gwybodaeth am bobl 16 oed a throsodd y mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ei chasglu tra bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn casglu gwybodaeth am bobl tair oed a throsodd fel y cyfrifiad). Yn hanesyddol, mae amcangyfrifon o allu pobl yn y Gymraeg o arolygon o gartrefi yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y cyfrifiad ac nid yw'r union reswm dros hyn yn hysbys. Mae'n debygol bod gwahaniaethau yn y ffordd y caiff yr arolygon hyn a'r cyfrifiad eu cynnal yn effeithio ar yr amcangyfrifon. Ceir rhagor o wybodaeth mewn blog a gyhoeddwyd gan y Prif Ystadegydd sy'n trafod data ar y Gymraeg.

Dengys data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019, fod tua 29.0 y cant o bobl tair oed a throsodd ledled Cymru wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o tua 3.4 pwynt canran o gymharu â'r data ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2019. Yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg oedd Gwynedd, lle y nododd tua 75.6 y cant o drigolion tair oed a throsodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 2019.

**Ffigur 8: Cofrestriadau myfyrwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl rhanbarth, 2018-19**





Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr addysg uwch, yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch

Yn 2018-19, cafwyd bron 132,210 o o gofestriadau ar gyrsiau Addysg Uwch (AU) yng Nghymru. Roedd bron hanner yr holl gofrestriadau yn Ne-ddwyrain Cymru. Prifysgol Caerdydd a gafodd y nifer fwyaf o gofrestriadau AU, sy'n cyfateb i 25.1 y cant o gyfanswm y cofrestriadau. Y Canolbarth oedd y rhanbarth â'r nifer isaf o gofrestriadau ar gyfer cyrsiau AU gan mai'r unig sefydliad dan sylw oedd Prifysgol Aberystwyth (7,845 o ymrestriadau).

Yn ogystal â'r ffigurau hyn, mae 165 wedi cofrestru ar grŵp NPTC, ond gan fod y darparwr ar wasgar dros sawl campws coleg, nid yw'n bosibl rhannu'r rhain rhwng y De-orllewin a'r Canolbarth. Mae'r grŵp NPTC yn goleg addysg bellach a ffurfiwyd yn dilyn uno Coleg Castell-nedd Port Talbot a Choleg Powys ar 1 Awst 2013.

## Iechyd

### Ffigur 9: Disgwyliad oes iach yng Nghymru fel cyfran o ddisgwyliad oes, yn ôl rhyw, 2016-18




Ffynhonnell: Disgwyliad oes mewn cyflwr iach, bwletinau Ystadegol y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol


Mae disgwyliad oes yn fesur o ba mor hir, ar gyfartaledd, y gall pobl ddisgwyl byw gan ddefnyddio amcangyfrifon o'r boblogaeth a nifer y marwolaethau. Mae disgwyliad oes iach yn amcangyfrif nifer y blynyddoedd a dreulir mewn iechyd cyffredinol da iawn neu dda.

Dengys data'r SYG ledled Cymru, fod disgwyl i ferched a aned yn 2016-18 fyw bron 4 blynedd yn hwy na dynion, ar gyfartaledd. Ar gyfer merched y ffigur oedd 82.3 oed, ar gyfer dynion y ffigur oedd 78.3 oed. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn lleihau wrth ystyried disgwyliad oes iach yng Nghymru, gyda merched a dynion yn treulio cyfartaledd o 62.0 a 61.4 o flynyddoedd, yn y drefn honno, mewn iechyd da (hynny yw, 75.4 y cant a 78.4 y cant o'u disgwyliad oes, yn y drefn honno).

Roedd y ffigurau ar gyfer disgwyliad oes yng Nghymru yn is na chyfartaleddau'r DU dros y cyfnod hwn (sef 82.9 oed ar gyfer merched a 79.3 oed ar gyfer dynion).

Ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, roedd disgwyliad oes adeg geni i ddynion ar ei uchaf yn Sir Fynwy ac ar ei isaf ym Mlaenau Gwent – gwahaniaeth o 4.5 mlynedd. Ar gyfer menywod, roedd ar ei uchaf yn Sir Fynwy a Cheredigion ac ar ei isaf ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, sef gwahaniaeth o 3.6 mlynedd. Roedd disgwyliad oes iach adeg geni i ddynion ar ei uchaf yn Sir Fynwy ac isaf ym Mlaenau Gwent – gwahaniaeth o 10.9 mlynedd. Ar gyfer menywod, roedd ar ei uchaf ym Mhowys ac ar ei isaf yng Nghaerffili – gwahaniaeth o 12.5 mlynedd.

**Ffigur 10: Oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran ffordd o fyw, yn ôl awdurdod lleol, 2017-18 a 2018-19* wedi’u cyfuno (wedi'u safoni yn ôl oedran)**




*Cyfunwyd y cyfnodau 2017-18 a 2018-19 at ddibenion ansawdd data

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Y 5 ymddygiad iach o ran ffordd o fyw yw: peidio ag ysmygu, yfed 14 uned neu lai o alcohol bob wythnos ar gyfartaledd, bwyta o leiaf 5 dogn o ffrwythau y diwrnod blaenorol, mynegai màs y corff yn iach, ac wedi bod yn egnïol am o leiaf 150 munud yr wythnos flaenorol.

Ledled Cymru yn 2017-18 a 2018-19 gyda'i gilydd, dywedodd 10 y cant o oedolion bod ganddynt lai na 2 o’r 5 ffordd iach o fyw. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng y pedwar rhanbarth. Ar lefel awdurdodau lleol roedd y ffigurau'n amrywio o 6 y cant yn Sir Fynwy i 15 y cant ym Merthyr Tudful.


## Cyflogaeth



| Cyfradd cyflogaeth (pobl 16-64 oed) | Cyfradd diweithdra (pobl 16 oed a hŷn) | Cyfradd anweithgarwch economaidd (pobl 16-64 oed) |
| --- | --- | --- |
| 73.5% | 4.1% | 19.7% |

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau gwladol. Mae'r data ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 30 Medi 2019.

**Ffigur 11: Y gyfradd cyflogaeth yng Nghymru, 1999-2019**




Nodiadau: Mae data1999 i 2003 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar 28 Chwefror. Mae data 2004 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben ar ar 31 Rhagfyr 2004. Mae data 2005 ymlaen ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 30 Medi.

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth


Y lefel cyflogaeth yw cyfanswm y bobl (16+ oed) sydd mewn cyflogaeth a'r gyfradd cyflogaeth yw'r ganran o'r boblogaeth (16-64 oed) sydd mewn cyflogaeth. Yng Nghymru, yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019, y gyfradd cyflogaeth oedd 73.5 y cant, gyda lefel cyflogaeth o tua 1.47 miliwn o bobl. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu 6.4 pwynt canran ers 2009 ac mae wedi cynyddu'n gyflymach na chyfradd y DU ers 2001, er ei bod yn dal i fod yn is na chyfradd y DU, sef 75.6 y cant. Ar lefel ranbarthol, roedd y Canolbarth, y De-orllewin a'r De-ddwyrain islaw cyfraddau'r DU a Chymru, ond gyda chyfradd y Gogledd yn uwch na'r ddwy ohonynt.

Y lefel diweithdra yw cyfanswm y bobl sy'n ddi-waith a'r gyfradd diweithdra yw canran y boblogaeth economaidd weithgar sy'n ddi-waith (gan ddefnyddio diffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra). Yng Nghymru, yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Medi 2019, y gyfradd diweithdra oedd 4.1 y cant, a oedd yn cyfateb i lefel diweithdra o 63,100 o bobl. Roedd y gyfradd hon 4.0 pwynt canran yn is na'r gyfradd diweithdra ddeng mlynedd ynghynt, ond yn uwch na chyfradd diweithdra'r DU, sef 3.9 y cant. Yn Ne-orllewin Cymru y cofnodwyd y gyfradd diweithdra uchaf an y Canolbarth yr oedd yr un isaf.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth nad yw'n gweithio ac nad yw'n chwilio am waith nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu a/neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl â salwch neu anabledd. Ledled Cymru, y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl 16-64 oed (heb gynnwys myfyrwyr) oedd 19.7 y cant, sy'n cyfateb i lefel anweithgarwch economaidd o 342,700 o bobl. Roedd y gyfradd hon 3.9 pwynt canran yn is o gymharu â deng mlynedd ynghynt. Mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd yng Nghymru a'r pedwar rhanbarth yn uwch na chyfradd y DU, sef 17.4 y cant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ystadegau economegol rhanbarthol ym mhrofiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 12: Cyflogaeth yn y gweithle yn ôl rhanbarth, 2018**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ledled Cymru, mae bron hanner y gyflogaeth yn y gweithle (neu gyfanswm y swyddi) wedi'i lleoli yn Ne-ddwyrain Cymru, er mai'r rhanbarth hwn hefyd sydd â'r ystod fwyaf o lefelau cyflogaeth yn y gweithle, gan gynnwys yr awdurdodau lleol â'r nifer fwyaf ac isaf o swyddi yng Nghymru.

Ledled Cymru, roedd mwy na 50 y cant o'r swyddi yn perthyn i ddau sector eang sef: gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd; a chyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd. Gweithgareddau yn gysylltiedig ag eiddo tiriog oedd y sector lleiaf ledled Cymru.

**Ffigur 13: Y newid o ran cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru yn ôl sector (cyfrif), 2008-18**





Allwedd
1 Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol; gweithgareddau gweinyddol a gweithgareddau gwasanaeth cymorth
2 Gweinyddiaeth gyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd
3 Cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a bwyd

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Y sectorau a dyfodd gyflymaf rhwng 2008 a 2018 oedd gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, dyletswyddau gweinyddol a dyletswyddau cymorth; a gweinyddu cyhoeddus, amddiffyn, addysg ac iechyd. Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, dyletswyddau gweinyddol a chymorth oedd yn y safle uchaf ar gyfer twf cyflogaeth yn y gweithle fel cyfrif rhwng 2008 a 2018. Yn y lleiaf o'r sectorau ledled Cymru, gweithgareddau eiddo tiriog, y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cyflogaeth rhwng 2008 a 2018, mewn termau canrannol.

Dengys data'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, yn 2019, ledled Cymru, fod gan y mwyafrif helaeth o fusnesau lai na 10 o weithwyr. Roedd tua 64 y cant o fusnesau mawr yn perthyn i ddau sector, sef: cyfanwerthu, manwerthu, trafnidiaeth, gwestai, bwyd a chyfathrebu; a gwasanaethau ariannol a busnes. Y sector â'r gyfran uchaf o fusnesau yn y band microfusnesau oedd amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.

**Ffigur 14: Y newid ym mhoblogaeth awdurdodau lleol o ganlyniad i bobl yn cymudo i mewn i'r rhanbarth ac allan ohono, 2018**





Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ar gyfer Cymru yn gyffredinol, roedd newid net yn y boblogaeth o weithwyr o -47,700 o weithwyr, sy'n dangos bod mwy o bobl yn cymudo allan o Gymru nag i mewn iddi.

Roedd y newid net yn y boblogaeth o weithwyr yn negyddol mewn 12 o'r 22 o awdurdodau lleol, sy'n golygu, yn yr awdurdodau hyn, bod mwy o bobl yn cymudo allan o'r awdurdod i fynd i'r gwaith nag sy'n cymudo i mewn iddo o awdurdodau eraill. Mae hyn yn cynnwys cymudo ar draws y ffin i ardaloedd yn Lloegr fel Bryste, Swydd Amwythig, Swydd Henffordd, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer ymysg eraill. Y ddau awdurdod mwyaf poblog yng Nghymru oedd y rhai â'r lefelau net uchaf o newid yn y boblogaeth o weithwyr hefyd.

Roedd pob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru yn cynnwys o leiaf un awdurdod lleol lle roedd mwy o weithwyr yn cymudo i mewn i'r awdurdod nag oedd yn cymudo allan ohono, er nad yw'r data hyn yn dangos o ble yn union y mae'r gweithwyr hyn wedi cymudo. Noder bod ffigurau, gan gynnwys data ar gyfer y rhanbarthau wedi'u cyfrifo ar sail data wedi'u talgrynnu a gyhoeddwyd.


**Ffigur 15: Pellter cyfartalog teithiau i'r gwaith (km) gan weithwyr 16-74 oed yn 2011, yn ôl yr awdurdod lleol lle maent yn preswylio**




Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys data'r Cyfrifiad ar gyfartaledd, fod trigolion mewn gwaith 16-74 oed ar Ynys Môn yn teithio ymhellach na gweithwyr unrhyw awdurdod lleoll arall yng Nghymru i fynd i'r gwaith. Gweithwyr Caerdydd, ar gyfartaledd, oedd â'r teithiau cymudo byrraf yng Nghymru o ran pellter.

**Ffigur 16: Lefel cymhwyster uchaf oedolion 18-64 oed yng Nghymru, 2008-2018**





*Mae'r holl ddata ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr

Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Rhwng 2008 a 2018, mae cyfran yr oedolion 18-64 oed ledled Cymru heb gymwysterau wedi gostwng o 15.2 y cant i 8.4 y cant. Gwelwyd gostyngiad ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, ac eithrio Sir y Fflint, lle y cafwyd cynnydd o un pwynt canran. Yn y cyfamser, mae cyfran y bobl sydd â chymhwyster hyd at NQF lefel 2 neu'n uwch wedi cynyddu o 68.9 y cant i 78.9 y cant. Yng Nghaerffili y gwelwyd y newid mwyaf, sef cynnydd o 16.5 pwynt canran. Yn 2018, roedd 37.8 y cant o'r bobl yng Nghymru wedi ennill rhyw fath o gymhwyster addysg uwch (NQF lefel 4 neu'n uwch). Roedd gan y mwyafrif o'r unigolion hyn gymwysterau hyd at NQF lefelau 4-6 a hwn oedd y grŵp â'r gyfran uchaf o'r boblogaeth ynddo yng nghyfnod 2018.

## Trafnidiaeth

### Ffigur 17: Seilwaith Trafnidiaeth yng Nghymru





Ffynhonnell: Arolwg Ordnans

Mae tair traffordd yng Nghymru; sef yr A48(M), yr M4 a'r M48.

Syrthiodd cyfanswm y traffig cludo nwyddau mewn porthladdoedd yng Nghymru 4.8 y cant yn 2018 i 49.2 miliwn o dunelli (Mt), y lefel isaf ers dechrau cadw cofnodion cyfatebol yn 1976. Mae'r tri phorthladd mwyaf yng Nghymru yn diwallu anghenion morgludiant arbenigol:

- Mae Aberdaugleddau yn ymdrin ag olew crai, cynnyrch olew a nwy naturiol hylifedig yn bennaf
- Mae Port Talbot yn mewnforio mwyn haearn a glo yn bennaf ar gyfer y gwaith dur cyfagos
- Caergybi yw'r prif borthladd ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr dros y môr i Weriniaeth Iwerddon.

**Ffigur 18: Pa mor aml mae oedolion 16+ oed yng Nghymru yn cerdded at ddibenion teithio llesol (a), (b)**




(a) Ni chynhaliwyd yr Arolwg Cenedlaethol yn 2015-16


(b) Newidiodd holiadur yr arolwg yn 2017-18 a chafodd yr amser cerdded ei gynyddu o 5 munud i 10 munud. Golyga hyn na ellir gwneud unrhyw gymariaethau â blynyddoedd blaenorol.

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dengys data o Arolwg Cenedlaethol Cymru, ledled Cymru yn 2018-19, fod 57 y cant o oedolon yn cerdded fwy nag unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol, a 6 y cant o'r holl oedolion 16 oed a throsodd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos at ddibenion teithio llesol. Roedd trigolion ardaloedd trefol yn cerdded am fwy na 10 munud fel dull teithio o leiaf unwaith y mis, o'i gymharu a 56 y cant o bobl mewn ardaloedd gwledig. Roedd pobl mewn ardaloedd trefol hefyd yn fwy tebygol o gerdded yn amlach, gyda 28 y cant yn cerdded bob dydd o'i gymharu â 17 y cant mewn ardaloedd gwledig. Gallai hyn fod oherwydd bod gan drigolion ardaloedd trefol fwy o gyrchfannau o fewn pellter cerdded na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig.

Yn y cyfamser, dengys data teithio llesol o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 fod 45 y cant o blant wedi teithio i'r ysgol gynradd naill ai gan gerdded gydag oedolyn, neu ar eu pen eu hunain neu gyda phlant eraill, neu ar feic, o gymharu â 33 y cant o'r plant a oedd yn teithio i'r ysgol uwchradd. Fodd bynnag, er bod disgyblion ysgol gynradd yn fwy tebygol na disgyblion ysgol uwchradd o gerdded neu feicio i'r ysgol, roeddent hefyd yn fwy tebygol o deithio i'r ysgol yn y car. Roedd hyn i'w briodoli i'r ffaith bod cyfran lawer uwch o blant ysgol uwchradd yn defnyddio bws ysgol o gymharu â phlant ysgol gynradd.


**Ffigur 19: Yr 20 o orsafoedd rheilffordd prysuraf yng Nghymru yn ôl nifer y mynediadau/ymadawiadau, 2017-18**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r defnydd o orsafoedd o Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd

Mae'r defnydd o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru wedi'i grynhoi o amgylch llinellau cymudo i Gaerdydd: roedd 15 o'r 20 o orsafoedd rheilffordd prysuraf yng Nghymru yn ôl nifer y mynediadau/ymadawiadau yn 2017-18 yn y De-ddwyrain. Roedd mwy na'u hanner ar linell Rhwydwaith y Cymoedd, a oedd yn cyfrif am 18 y cant o gyfanswm mynediadau/ymadawiadau gorsafoedd yn ystod y cyfnod hwn (nid yw hyn yn cynnwys mynediadau/ymadawiadau ar gyfer Gorsafoedd Caerdydd Canolog a Chaerdydd Heol y Frenhines). Roedd Caerdydd Canolog ar ei phen ei hun yn cyfrif am 25 y cant o holl fynediadau ac ymadawiadau gorsafoedd yng Nghymru yn 2017-18.

**Ffigur 20: Newid net yn nifer y teithiau trên yn ôl rhanbarth, rhwng 2007-08 a 2017-18**





Ffynhonnell: Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol, Proffiliau Defnyddwyr Rhanbarthol, Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd

Ledled Cymru, gwelodd gorsafoedd rheilffordd 52.5 miliwn o fynediadau/ymadawiadau yn 2017-18, a oedd yn cyfrif am 1.8 y cant o gyfanswm y DU. Cynyddodd y defnydd o orsafoedd rheilffordd yng Nghymru 1.7 y cant yn 2017-18 o gymharu â'r flwyddyn faenorol, gan barhau â'r duedd gadarnhaol o ran mynediadau/ymadawiadau gorsafoedd rheilffordd a oedd wedi'i nodi ers dechrau'r gyfres ddata yn 2004-05).

Gan edrych dros y tymor hwy, dengys data o Swyddfa'r Rheilffyrdd a'r Ffyrdd fod nifer y teithiau trên a wnaed yng Nghymru wedi cynyddu 30.0 y cant rhwng 2007-08 a 2017-18. Teithiau a ddechreuodd a/neu a orffennodd yn Ne-ddwyrain Cymru a oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn.

## Yr Amgylchedd

### Ffigur 21: Arfordir Treftadaeth ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru





Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Sefydlwyd [Arfordiroedd Treftadaeth] er mwyn diogelu arfordiroedd rhag datblygiadau ansensitif. Maent yn ymestyn dros draean o arfordir Cymru, sef 500km (300 milltir).

Mae 21 o [Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau)] wedi'u lleoli'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru. Eu diben yw diogelu cynefinoedd rhywogaethau adar sy'n brin neu'n agored i niwed (y mae 48 ohonynt yn y DU), yn ogystal â rhai rhywogaethau mudol sy'n ymweld â glannau Cymru yn rheolaidd.


**Ffigur 22: Amgylchedd Naturiol Dynodedig yng cNghymru**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cymru yn gartref i dri Pharc Cenedlaethol, sef: Eryri; Bannau Brycheiniog; ac Arfordir Penfro. Mae pum ardal hefyd wedi'u dynodi'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNEau), sef: Gŵyr; rhan o Ddyffryn Gwy; Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy; Ynys Môn; a Phen Llŷn. Mae 1,063 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) yng Nghymru hefyd.

**Ffigur 23: Crynodiad nitrogen deuocsid ($NO_2$) yng Nghymru dros amser**





Ffynhonnell: Crynodiad Aer, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig; Amcangyfrifon poblogaeth ardaloedd bach (SAPE), y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol; Gwybodaeth Ddaearyddol, Llywodraeth Cymru

Mae lefelau llygredd aer yn gostwng yn raddol yng Nghymru, gyda chrynodiad cyfartalog nitrogen deuocsid a nodwyd yng Nghymru yn gostwng o 14 µg/m$^3$ yn 2007 i 9 µg/m$^3$ yn 2017. Roedd hyn yn amrywio ledled Cymru. Ar y cyfan, roedd gan awdurdodau lleol mwy poblog grynodiadau uwch o nitrogen deuocsid a nodwyd nag awdurdodau llai poblog. Caerdydd oedd â'r crynodiad uchaf (17 µg/m$^3$), a Cheredigion a Phowys oedd â'r crynodiadau isaf a nodwyd, sef 4 µg/m$^3$. Yng Nghasnewydd y gwelwyd y newid mwyaf o ran crynodiadau nitrogen deuocsid rhwng 2007 a 2017, a ostyngodd 8 µg/m$^3$ dros y cyfnod hwn.

Mae capasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi bod yn cynyddu ledled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chapasiti o 3,864 megawat (MW) o ynni carbon isel yn 2018 drwy fwy na 68,700 o brosiectau. Roedd 25 y cant o'r capasiti hwn yn y De-orllewin, 21 y cant yn y De-ddwyrain, 18 y cant yn y Gogledd ac 16 y cant yn y Canolbarth. Roedd yr 19 y cant arall ar y môr. Roedd 86 y cant o'r prosiectau ynni carbon isel yng Nghymru ar gyfer ynni solar (ffotofoltäig neu thermol).

**Ffigur 24: Trin gwastraff trefol yng Nghymru**





Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhwng 2012-13 a 2016-17, fe wnaeth y cyfraddau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio cartrefi gynyddu yng Nghymru, a bu gostyngiad yng nghanran y gwastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae’r cyfrannau hyn wedi aros yn weddol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.

Yn 2018-19 cafodd 63 y cant o wastraff trefol awdurdodau lleol yng Nghyrmu ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio. Roedd y lefel hon 11 pwynt canran yn uwch nag yn 2012-13.

Yn y cyfamser, lefel gwastraff trefol awdurdodau lleol a gafodd ei anfon i safleoedd tirlenwi oedd 10 y cant yng Nghymru. Roedd hyn yn fwy nag yn 2016-17, ond dengys y duedd ostyngiad o gymharu â'r 41 y cant a gofnodwyd yn 2012-13, sef y flwyddyn gynharaf y mae data y gellir eu cymharu'n uniongyrchol ar gael ar ei chyfer.

**Ffigur 25: Gwastraff gweddilliol blynyddol cartrefi a gynhyrchwyd y pen (kg), yn ôl awdurdod lleol, 2018-19**





Ffynhonnell: WasteDataFlow, Cyfoeth Naturiol Cymru

Yn 2018-19, cynhyrchodd person cyffredin yng Nghymru 180kg o wastraff cartref gweddilliol (gwastraff a gynhyrchir nas cynhwysir mewn cylchoedd casglu ar wahân lle y bwriedir i'r gwastraff gael ei ailgylchu neu ei gompostio), o gymharu â 217kg yn 2012-13. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 17.1 y cant.

## Ffyniant

**Ffigur 26: GYG y pen yng Nghymru a'r DU (£), rhwng 1998 a 2018**




*Cyfanswm y DU heb gynnwys unrhyw elfennau o incwm aelwydydd na ellir eu priodoli i ranbarthau penodol, h.y. elfennau sy'n allranbarthol. Hwn yw cyfanswm rhanbarthau Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r cyfanrif mwyaf priodol.

Ffynhonnell: Cyfrifon Rhanbarthol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Dengys Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) y pen ar gyfer 2018 ac Incwm Gwario Gros Aelwydydd ar gyfer 2017 fod y ddau fesur wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd tymor hwy, ac eto maent yn dal i fod yn is na gwerthoedd y DU.

Mae GYG y pen yn ffordd ddefnyddiol o gymharu rhanbarthau o wahanol faint. Fodd bynnag, nid yw'n mesur cynhyrchiant rhanbarthol.

Dylid nodi bod ffigurau GYG rhanbarthol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau, gan fod modd iddynt gael eu heffeithio gan ffactorau fel cymudo rhwng rhanbarthau, a'r demograffeg a mathau o swyddi gwahanol mewn rhanbarthau. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn erthygl blog y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Hefyd, sylwer bod y ffigurau rhanbarthol yn cael eu dosrannu o gyfansymiau cenedlaethol ar sail dangosyddion rhanbarthol. Mae'r dangosyddion rhanbarthol, sy'n cynnwys data gweinyddol ac arolygon, yn cael eu hystyried fel y ffynonellau mwyaf priodol, ond gallant arwain at ddyraniadau rhanbarthol amherffaith.

Yn 2018, GYG y pen yng Nghymru oedd £20,738. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 2.9 y cant o gymharu â 2017, a chynnydd o 78.9 y cant o gymharu â 1999. Yn 2018, y De-ddwyrain oedd â'r lefel uchaf o GYG y pen a'r Canolbarth oedd a'r lefel isaf o GYG y pen o blith pedwar rhanbarth Cymru.

Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) yn amcangyfrif o'r swm o arian sydd gan aelwydydd i'w wario neu ei gynilo. Yng Nghymru, roedd GDHI y pen £15,754 yn 2017, i fyny 1.0 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a 58.8 y cant yn uwch nag yn 1999. Roedd y lefel uchaf o GDHI y pen yn ystod 2017 yn y Canolbarth a'r isaf yn y De-orllewin.

Yn 2019, enillion gros canolrifol yr wythnos cyflogeion llawn amser ledled Cymru oedd £535.00. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o £26.00 o gymharu â 2018, ond roedd yn dal i fod £49.90 yn is na gwerth cymedrig y DU. O gymharu'r data rhanbarthol, roedd y cyflog canolrifol yn y De-ddwyrain yn 2018 yn £543.80 a oedd yn uwch na'r De-orllewin (£532.20), y Gogledd (£530.00), a'r Canolbarth (£505.60).

Dengys amcangyfrifon y SYG, yn 2019, fod 22.6 y cant o gyflogeion yng Nghymru yn ennill llai na'r cyflog byw (sef £9.00 yn 2019, fel y'i diffinnir gan y Living Wage Foundation). Yr amcangyfrif ar gyfer y DU oedd 20.1 y cant. Roedd y gyfran uchaf o weithwyr a oedd yn ennill swm llai na'r cyflog byw yng Ngwynedd (31.4 y cant), ac roedd y gyfran isaf ym Mro Morgannwg (16.4 y cant). Noder bod yr amcangyfrifon hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol yn amrywio o ran eu hansawdd, sy'n bennaf yn adlewyrchu maint y samplau.

Dengys ymchwil y SYG, yn y flwyddyn dreth a ddaeth i ben yn 2016, fod gan 40.8 y cant o aelwydydd yng Nghymru incwm o £15,000 neu'n is ar ôl ystyried TWE a budd-daliadau. Gan ddefnyddio'r un mesurau, roedd gan 13.8 y cant o aelwydydd incwm o fwy na £30,000. Yn Lloegr, y cyfraddau cyfatebol ar gyfer y grwpiau incwm hyn oedd 38.7 y cant a 18.8 yn y drefn honno. Cyhoeddir yr adroddiadau hyn fel allbynnau ymchwil i fethodoleg sy'n wahanol i'r un sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd i gynhyrchu ystadegau ar incwm. Ni ddylid ystyried bod yr allbynnau hyn yn ddangosydd tlodi na safonau byw.

Ledled Cymru, roedd 18.3 y cant o ddisgyblion 5-15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2018/19, i fyny 0.5 pwynt canran ers 2008/09. Roedd hyn yn amrywio o 19.2 y cant yn y De-ddwyrain i 11.2 y cant yn y Canolbarth. Yn y Gogledd y gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cymhwysedd dros y deng mlynedd blaenorol (1.8 pwynt canran).

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach. Ei nod yw dangos yr ardaloedd bach hynny lle mae'r crynodiadau uchaf o nifer o wahanol fathau o amddifadedd. Amddifadedd yw diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid eu disgwyl o bosib yn ein cymdeithas. Gall hyn fod yn nhermau nwyddau materol neu allu unigolyn i gymryd rhan ym mywyd cymdeithasol arferol y gymuned.

Mae 1909 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. O blith y rhain, mae 49 y cant yn y De-ddwyrain, 22 y cant yn y De-orllewin, 7 y cant yn y Canolbarth, a 22 y cant yn y Gogledd.

Wrth edrych ar yr 191 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ar draws Cymru yn 2019 - sef y 10 y cant mwyaf difreintiedig, mae 66 y cant yn y De-ddwyrain, 21 y cant yn y De-orllewin, 1 y cant yn y Canolbarth, a 12 y cant yn y Gogledd.


Ym MALIC 2019, roedd pocedi o amddifadedd cymharol uchel yng Nghymoedd y De a dinasoedd mawr, ac mewn rhai trefi arfordirol neu ger y ffin yn y Gogledd.

Cafodd MALIC ei ddiweddaru ddiwethaf ym mis Tachwedd 2019, ac mae'r offeryn rhyngweithiol yn darparu dadansoddiadau ystadegol pellach yn ôl Dinas Ranbarth / Ardal Bargen Ddinesig yng Nghymru.

## Busnesau

Yn 2018 roedd gan Gymru gyfradd 'genedigaethau busnesau' uchel a chyfradd 'marwolaethau busnesau' isel o gymharu â gweddill y DU. Cafwyd 14,045 o enedigaethau busnes yng Nghymru yn 2018, sy'n golygu bod ganddi gyfradd o 13.3 y cant o gyfanswm y stoc busnesau, sef y drydedd gyfradd uchaf o blith deuddeg gwlad a rhanbarth y DU (yr un fath â Gorllewin Canolbarth Lloegr). Cyfradd enedigaethau'r DU oedd 12.9 y cant. Bu 10,950 o 'farwolaethau' busnes yng Nghymru yn 2018, sy'n gyfradd o 10.4 y cant o'r stoc busnesau. Dyma'r bedwaredd gyfradd isaf ymhlith deuddeg gwlad a rhanbarth y DU (Gogledd-orllewin Lloegr oedd yr uchaf ar 13.5 y cant). Roedd cyfradd farwolaethau'r DU yn 11.4 y cant.

**Ffigur 27: Cyfraddau goroesi busnesau yng Nghymru a sefydlwyd yn 2013 (data 2018)**





Ffynhonnell: Demograffeg Busnes, y Swyddfa Ystadegau Gwladol

O'r busnesau a sefydlwyd yng Nghymru yn 2013, roedd 93.6 y cant yn dal i fodoli ar ôl eu blwyddyn gyntaf, roedd 46 y cant yn dal i fasnachu ar ôl tair blynedd ac roedd 42.0 y cant yn dal i weithredu ar ôl pum mlynedd. Dengys y data mai Ynys Môn oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran uchaf o fusnesau a oedd yn dal i fodoli ar ôl y pum mlynedd gyntaf (50.0 y cant) ac mai Merthyr Tudful oedd â'r gyfradd oroesi bum mlynedd isaf yng Nghymru (26.7 y cant).

## Seilwaith Digidol

**Ffigur 28: Canran y cartrefi a'r busnesau a allai gael gwasanaeth band eang cyflym iawn a gwibgyswllt, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu


Ym mis Medi 2019, roedd Cymru ar y cyfan yn gyson â gweddill y DU o ran mynediad i gyflymder band eang cyflym iawn (30Mbit/e neu'n uwch), gyda chyfradd mynediad o 93 y cant o safleoedd (cartrefi a busnesau), o'i gymharu â 94 y cant ledled y DU. Ar gyfer Cymru, roedd hyn yr un fath â 2018.

Roedd 31 y cant o'r cartrefi a'r busnesau yng Nghymru yn gallu cael cysylltiad band eang sefydlog gwibgyswllt ym mis Medi 2019. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 2 pwynt canran o gymharu â 2018 ond roedd yn dal i fod yn is na chyfradd y DU, sef 52 y cant.

Roedd 11 y cant o gartrefi a busnesau yng Nghymru yn gallu manteisio ar wasanaethau ffeibr llawn ym mis Medi 2019. Roedd hyn 1 pwynt canran yn uwch na lefel y DU. Mae band eang ffeibr llawn yn defnyddio ceblau ffeibr optig i gysylltu cartrefi a busnesau â'r cabinet ar y stryd, yn lle cysylltiadau copr. Mae cysylltiadau ffeibr optig yn darparu gwasanaeth gwell a mwy dibynadwy a all gynnig cyflymder hyd at un gigabit yr eiliad.

Yn awdurdodau lleol Cymru, roedd cyflymderau lawrlwytho cyfartalog yn amrywio o 31.5 Mbit/e yn nau ranbarth y Canolbarth, Powys a Cheredigion i 76.1Mbit/e yng Nghaerdydd. O safbwynt rhanbarthol, roedd gwahaniaethau mawr mewn cyflymderau lawrlwytho cyfartalog rhwng yr awdurdodau lleol yn Ne-ddwyrain Cymru a'r De-orllewin. Roedd gan yr awdurdodau lleol â dinasoedd mwy poblog, megis Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, gyflymderau lawrlwytho cyfartalog uwch na'r awdurdodau â dwysedd poblogaeth is


**Ffigur 29: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghymru nad oeddent yn bodloni gofynion y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Ar draws Cymru, ni wnaeth 15,600 o gartrefi a busnesau (1.0 y cant) fodloni'r isafswm Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ym mis Medi 2019, gan olygu nad oeddent yn gallu cael gafael ar gyflymder lawrlwytho o 10Mbit/e a chyflymder lanlwytho o 1Mbit/e. Mae hyn yn is na'r llynedd (48,200 o gartrefi a busnesau, 3.3 y cant), ond mae'n dal i fod yn uwch na lefel y DU, sef 0.5 y cant.

**Ffigur 30: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghymru a allai gael signal 4G dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**





Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu

Mae gwasanaethau dyfeisiau symudol yn gwella yng Nghymru, ond mae'r ddarpariaeth gan bob un o'r pedwar gweithredwr rhwydwaith yn dal i fod yn is na ffigur y DU.

Dengys data Ofcom bod 72 y cant o safleoedd dan do (cartrefi a busnesau) yng Nghymru yn cael signal 4G gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019, o gymharu â 69 y cant ym mis Mehefin 2018. Lefel y DU oedd 80 y cant. Nid oedd 5 y cant o ardal ddaearyddol Cymru yn cael ei wasanaethu gan unrhyw weithredwr. Roedd hyn yn uwch na chyfradd y DU, sef 2 y cant.

**Ffigur 31: Canran y cartrefi a'r busnesau yng Nghymru a allai gael gwasanaeth galwadau llais dan do gan bob un o'r pedwar darparwr rhwydwaith, yn ôl awdurdod lleol, Medi 2019**




Ffynhonnell: Adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, y Swyddfa Gyfathrebu


Dengys data ar wasanaethau galwadau ffôn fod 90 y cant o safleoedd dan do yng Nghymru yn cael signal gan bob un o'r pedwar gweithredwr ym mis Medi 2019. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd o 2 pwynt canran o gymharu â mis Medi 2018, ond roedd yn dal i fod 3 pwynt canran yn is na chyfradd y DU. Nid oedd 2 y cant o ardal ddaearyddol Cymru yn cael ei gwasanaethu gan unrhyw weithredwr ym mis Medi 2019.  Roedd y ganran hon yn uwch na chyfradd y DU, sef 1 y cant.

## Tai

Mae cyfanswm yr anheddau a nifer amcangyfrifedig yr anheddau yn y sector preifat yng Nghymru wedi cynyddu'n raddol dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfanswm yr anheddau yng Nghymru wedi cynyddu 5 y cant i tua 1.43 miliwn o anheddau ar 31 Mawrth 2019.


Mae rhentu'n breifat yn dod yn fwy cyffredin yng Nghymru, gyda 15 y cant o'r holl anheddau yng Nghymru yn cael eu rhentu'n breifat yn 2019. Mae'r mwyaf o'r holl anheddau yng Nghymru yn dal i fod yn rhai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr, ac roeddent yn cyfrif am 70 y cant o'r anheddau yn 2019.

**Ffigur 32: Nifer y fflatiau a'r cartrefi newydd a gwblhawyd yng Nghymru dros amser**




Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

**Ffigur 33: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru dros amser, yn ôl deiliadaeth**





Ffynhonnell: Casglu data: adeiladu tai newydd, Llywodraeth Cymru

Mae'r ffigurau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a'r Cygnor Adeiladu Tai Cenedlaethol (NHBC) yn dod o gofnodion a gedwir at ddibenion rheoli adeiladu. Weithiau, mae'n anodd i swyddogion

rheoli adeiladu nodi a yw annedd yn cael ei hadeiladu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig neu ar gyfer datblygwr preifat, a gallai hyn arwain at dangyfrif tai newydd ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gorgyfrif ar gyfer y sector preifat.

Ar draws Cymru, cafodd 5,777 o anheddau newydd eu cwblhau dros y cyfnod 2018-2019. Mae hyn 19 y cant yn llai na 10 mlynedd yn gynharach a 25 y cant yn llai nag 20 mlynedd yn gynharach. Ar gyfer y cyfnod 2018-19, cwblhawyd 55 y cant o anheddau newydd yn y De-ddwyrain.  Caerdydd oedd yr awdurdod lleol â'r nifer uchaf o anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru (730, neu 13 y cant) a Merthyr Tudful oedd yr isaf (36, neu 1 y cant).

**Ffigur 34: Prisiau cyfartalog anheddau yng Nghymru dros amser yn ôl y math o annedd**




Ffynhonnell: Mynegai Prisiau Tai'r DU, Cofrestrfa Tir EM


Yn unol â fersiwn mis Rhagfyr 2018 o Fynegai Prisiau Tai’r DU: UK House Price Index (UK HPI). Mae UK HPI yn fynegai sydd wedi addasu yn ôl cymysgedd, sy'n golygu ei fod wedi'i bwysoli i adlewyrchu'r cymysgedd gwirioneddol o eiddo a werthwyd yn y flwyddyn flaenorol. Cyhoeddir UK HPI yn fisol. Mae'r holl ffigurau ysydd ynddo yn agored i'w diwygio am hyd at 12 mis.

Dengys data o fynegai prisiau tai y DU 2020 ym mis Medi 2019 mai £165,100 oedd pris cyfartalog tai yng Nghymru, cynnydd o bron i £35,900, neu 27.8 y cant dros gyfnod o ddeng mlynedd. Ar lefel awdurdodau lleol, roedd y prisiau tai cyfartalog uchaf ac isaf yn y De-dddwyrain, yn Sir Fynwy (£274,300) a Blaenau Gwent (£94,600) yn y drefn honno.

Amcangyfrifodd yr awdurdodau lleol fod 405 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Cymru yn y 2 wythnos rhwng 14 a 27 Hydref 2019. Mae hyn yn gynnydd o 17 y cant (58 o bobl) o’i gymharu â'r ymarfer a gynhaliwyd ym mis Hydref 2018. Roedd dros hanner (54 y cant) o'r rhain wedi'u lleoli yn y De-ddwyrain a bron i chwarter (23 y cant) wedi'u lleoli yng Nghaerdydd.

## Diwylliant a Threftadaeth

### Ffigur 35: Safleoedd Treftadaeth y Byd ac Adeiladau Rhestredig yng Nghymru




Ffynhonnell: Cadw

Mae Cymru yn gartref i dri o safleoedd treftadaeth y byd UNESCO: mae Cestyll a Muriau Trefi Edward I yng Ngwynedd (Caernarfon, Conwy, Biwmares a Harlech), yn ogystal â dyfrbont a chamlas Pontcysyllte wedi'u lleoli yn y Gogledd, tra bod tirwedd ddiwydiannol Blaenafon wedi'i lleoli yn y De-ddwyrain.

Yn y naw mis rhwng mis Ionawr a mis Medi 2019, cafwyd 8.5 miliwn o ymweliadau dros nos â Chymru gan drigolion y DU, sef cynnydd o 4.8 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod y gwariant yng Nghymru oedd £1.7 biliwn. Dengys data 2018 fod 10.0 miliwn o ymweliadau

dros nos â Chymru, sy'n gwneud cyfanswm o 35.6 miliwn o nosweithiau. Roedd hyn yn cyfateb i ychydig o dan 10 y cant o gyfanswm y nosweithiau a dreuliwyd ym Mhrydain Fawr. Y gwariant ar yr ymweliadau hyn oedd £1.9 biliwn, sef 7.7 y cant o gyfanswm Prydain Fawr. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer Cymru wedi cynyddu o’i gymharu â 2016 a 2017 ond maent dal o dan y lefelau yn 2015.

Yn ystod naw mis cyntaf 2019 cafwyd 820,000 o ymweliadau â Chymru gan bobl o wledydd tramor gyda gwariant o £358 miliwn. Roedd hyn yn cyfateb i gynnydd yn nifer yr ymweliadau â Chymru gan bobl o wledydd tramor o gymharu â'r un cyfnod yn 2018. Cynyddodd cyfanswm y gwariant gan bobl o wledydd tramor hefyd o’i gymharu â 2018.

Yn 2018, cafwyd 1.7 biliwn o [Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid](#) ym Mhrydain Fawr, gyda 96 miliwn ohonynt (6 y cant) yng Nghymru. Yng Nghymru, cofnodwyd llai o ymweliadau dydd gan dwristiaid yn 2018 nag yn 2017. Cyfanswm y gwariant o ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru yn 2018 oedd mwy na £4.0 biliwn, sef 6 y cant o gyfanswm Prydain Fawr. Bu gostyngiad yn nifer yr ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru yn ystod y naw mis cyntaf 2019 gyda 65.4 miliwn o ymweliadau â Chymru a gwariant o £2.6 biliwn.

Yn 2018, roedd ymweliadau dydd gan dwristiaid yng Nghymru yn fwy tebygol na'r rhai a wnaed yn Lloegr o gynnwys ymweliadau â ffrindiau neu deulu ar gyfer hamdden, gweithgareddau hamdden awyr agored, diwrnodau allan cyffredinol i archwilio ardal, digwyddiad cyhoeddus arbennig neu ddigwyddiad arbennig o natur bersonol. Roeddent hefyd yn llawer mwy tebygol o gynnwys ymweliad â glan y môr neu'r arfordir nag yng ngwledydd eraill y DU ac yn llawer llai tebygol o gynnwys ymweliad â dinas neu dref fawr.

Yn 2018, roedd 27 y cant o'r Ymweliadau Dydd gan Dwristiaid â Chymru gan bobl o'r tu allan i Gymru.

Dengys [Arolwg Deiliadaeth Llety Twristiaeth Cymru 2018](#), ar gyfartaledd, mai'r cyfraddau ar gyfer defnydd gwelyau ac ystafelloedd mewn gwestai ar gyfer 2018 oedd 50 y cant a 66 y cant yn y drefn honno, sef gostyngiad bach o 1 pwynt canran mewn cyfraddau defnydd gwelyau ac ystafelloedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar y cyfan, mae cyfraddau defnydd cyfartalog yn 2018 fwy neu lai yn gyfartal â'r duedd bum mlynedd ddiweddar.

Roedd natur dymhorol cyfraddau defnydd ar gyfer gwestai yng Nghymru yn dal i fod yn amlwg yn 2018, er bod Ionawr a Rhagfyr 2018 yn dangos twf cryf yn y defnydd o’i gymharu â 2017. Cynyddodd cyfradd gyfartalog defnydd ystafelloedd o 52 y cant ym mis Ionawr i'w lefel uchaf erioed ym mis Awst, sef 77 y cant, cyn gostwng i 59 y cant ym mis Rhagfyr.

Nodyn: Y gyfradd defnydd ystafelloedd yw nifer yr ystafelloedd gwely a ddefnyddir dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm yr ystafelloedd gwely sydd ar gael. Cyfradd defnydd gwelyau yw nifer y gwelyau a ddefnyddiwyd dros gyfnod penodol fel cyfran o gyfanswm y gwelyau a oedd ar gael.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Perthnasedd

Mae'r cyhoeddiad hwn yn gompendiwm o ystadegau allweddol ar naw pwnc gwahanol. Mae'n dwyn ynghyd ddata sydd eisoes wedi'u cyhoeddi ar wahanol lefelau daearyddol (e.e. ar lefel Cymru, ar lefel awdurdod lleol). Lle y bo'n bosibl ac yn briodol, darparwyd data ar lefel ranbarthol er mwyn rhoi rhagor o gyd-destun ynglŷn â gwahaniaethau rhanbarthol a allai fodoli yng Nghymru. Ceir rhagor o wybodaeth am ffynonellau data penodol yn dolenni at ddatganiadau unigol.

Lluniwyd y cyhoeddiad hwn i ddechrau er mwyn helpu timau polisi yn Llywodraeth Cymru i baratoi a drafftio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd y cyhoeddiad hwn, oherwydd ei gwmpas, yn ddefnyddiol i eraill. Rhagwelir y caiff ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill â diddordeb rhanbarthol a chan ycyhoedd, er mwyn (i) cael trosolwg o'r data a gesglir ar gyfer Cymru a'i hawdurdodau lleol a'i rhanbarthau ar bob un o'r pynciau a (ii) deall gwahaniaethau a allai fodoli rhwng rhanbarthau Cymru. Gall defnyddwyr â diddordeb arbennig mewn un neu fwy o'r pynciau yn yr adroddiad hwn weld amrywiaeth ehangach o ystadegau a data ar StatsCymru.

### Cywirdeb

Daw'r ystadegau a geir yn y datganiad hwn o ffynonellau ystadegau swyddogol, er nad ydynt i gyd wedi cael eu dosbarthu'n Ystadegau Cenedlaethol. Ceir rhagor o wybodaeth am ystadegau swyddogol ac Ystadegau Gwladol ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU. Ceir gwybodaeth am ansawdd pob un o'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn y datganiadau unigol, y cyfeirir atynt yn y troednodiadau, neu yn yr adroddiadau ansawdd sy'n ategu'r datganiadau hyn.

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Mae data cyfredol ar gael drwy ddilyn y dolenni i ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y troednodiadau. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

Er nad ydym yn bwriadu diweddaru'r adroddiadau hyn yn rheolaidd, maent wedi'u diweddaru nawr i gefnogi datblygiad parhaus y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn dilyn ymgynghori ar yr NDF drafft yn hydref 2019. Fodd bynnag, yn y dyfodol, bydd data ar gael ar StatsCymru ac mewn dangosfyrddau, a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd gael eu cyhoeddi, gan sicrhau bod defnyddwyr bob amser yn cael y data diweddaraf.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Oherwydd y nifer fawr o ffynonellau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn a'r amser a gymerwyd i'w lunio, mae'n bosibl fod data mwy diweddar wedi'u cyhoeddi ar gyfer rhai ffynonellau. Roedd yn hysbys bod mwyafrif y data ar gael y data fwyaf diweddar ar 30/01/2020. Nid yw amcangyfrifon o'r angen am dai wedi'u cynnwys gan fod cyhoeddi'r data hwn a oedd hefyd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mai wedi'i ohirio. Ar 18 Mai 2020, nododd SYG eu bod wedi darganfod rhai gwallau prosesu sy'n effeithio ar yr amcanestyniadau poblogaeth genedlaethol ar sail 2018. Mae hyn yn effeithio'n bennaf ar y llifoedd rhwng Cymru a Lloegr. Mae effaith hyn yn fawr a bydd y data'n cael ei adolygu. Felly, nid yw amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau hyn.

### Hygyrchedd ac eglurder

Gall defnyddwyr weld yr holl ddata a geir yn y datganiad hwn drwy ddilyn y dolenni a nodir yn y troednodiadau. Mae'r mwyafrif o'r data sy'n sail i'r adroddiad hwn, gan gynnwys dadansoddiadau llawer mwy manwl, ar gael ar StatsCymru a thrwy wasanaethau data agored StatsCymru. Mae gwybodaeth am ansawdd a metadata ar gyfer pob un o'r ffynonellau hyn hefyd ar gael drwy ddilyn y dolenni hyn.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar hyn o bryd mewn fformat PDF y gellir ei argraffu, ond yn y dyfodol, cyhoeddir data fel adroddiadau ar-lein rhyngweithiol er mwyn sicrhau'r lefel uchaf posibl o effaith ac effeithlonrwydd gan ddefnyddio gwasanaethau data agored Llywodraeth Cymru.

### Cymaroldeb a chydlyniaeth

Lle mae setiau data gwahanol wedi'u defnyddio i drafod yr un pwnc (er enghraifft yn yr adran ar ystadegau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, rhoddir esboniad o gryfderau a chyfyngiadau pob un o'r ffynonellau hyn, a'r gydlyniaeth rhyngddynt, gyda rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu yn y ffynonellau a'r dolenni.

Lle y bo'n bosibl, mae Ystadegau Gwladol wedi'u defnyddio er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd uchel a'u bod yn gyson ag ystadegau ar y pynciau a allai gael eu defnyddio at ddibenion eraill. Ceir rhagor o wybodaeth am gymharedd a chydlyniaeth pob un o'r ffynonellau yn y ffynonellau y mae dolenni iddynt wedi'u nodi yn y troednodiadau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru, sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynwyd y 46 dangosydd cenedlaethol ym mis Mawrth 2016 ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys 7 ohonynt, sef canran yr oedolion sydd â llai na dau ddangosydd ffordd iach o fyw; lefelau llygredd nitrogen deuocsid ($NO_2$) yn yr aer; canran yr oedolion â chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol; Incwm

Gwario Gros Aelwydydd y pen; capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy a osodwyd; canran y bobl mewn gwaith; a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Fel dangosydd cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd.

Gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn: https://llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020

## Dolenni cysylltiedig eraill

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

## Y diweddariad nesaf

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ddatganiad untro ac ni chaiff ei ddiweddaru. Fodd bynnag, darperir data yn y dyfodol mewn fformat dangosfwrdd a chânt eu diweddaru wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at Desg.ystadegau@llyw.cymru.

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir fel arall.